# EDWARDS, EBENEZER (1824 - 1901), gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn U.D.A. ac yng Nghymru;

**Enw:** Ebenezer Edwards
**Dyddiad geni:** 1824
**Dyddiad marw:** 1901
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert (Bob) Owen

Ganwyd yn Llangollen. Bu yng Ngholeg y Bedyddwyr yn Hwlffordd ac mewn coleg yn U.D.A., lle yr ymfudodd pan oedd yn weddol ieuanc. Ordeiniwyd ef yn 1851 yn weinidog eglwys Bedyddwyr Pittstown, Pennsylvania; bu hefyd yn Cincinnati. Dychwelodd i Gymru yn 1858 a bu'n gweinidogaethu yn Brynmawr a Llanelli. Ailymfudodd i U.D.A. yn 1868 gan dreulio toreth ei amser yn Pennsylvania. O'r llyfrau a ysgrifennodd, y pwysicaf ydyw *Welshmen as Factors in the Development of the Republic ... Successful Prize Essay ... International Eisteddfod ... Chicago 1893 ...* (Utica, N.Y., 1899). Bu farw yn nechrau'r flwyddyn 1901.

## Awdur

**Robert (Bob) Owen**, (1885 - 1962)

## Ffynonellau


*Y Drych*, Ionawr 1901

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1901, 48


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732910


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu